**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales

13 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor dyddiedig 7 Rhagfyr ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) ac adroddiad y Pwyllgor dyddiedig 9 Rhagfyr ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2). Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn yr adroddiadau. Mae'r argymelliadau, yn ogystal â'm hymateb, i'w gweld isod.

***Argymhelliad 1.*** *Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, dylai'r Gweinidog esbonio'r canlynol:*

- *pam nad oes gan y Memorandwm ffocws ar Gymru wrth esbonio'r cymalau perthnasol, y mae pob un ohonynt yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;*
- *pam na chyfeiriodd y Memorandwm at agweddau ehangach ar y rhaglen diwygio cyfraith lesddaliad a allai fod y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;*
- *pa agweddau penodol ar y rhaglen diwygio cyfraith lesddaliad a allai fod y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac amseriad unrhyw Fil Llywodraeth y DU yn y dyfodol y byddant yn cael eu cynnwys ynddo.*

Mewn ymateb i'r pwynt bwled cyntaf, mae'n hollbwysig cofio, yn fy marn i, fod darpariaethau'r Bil yn gymwys i'r un graddau yng Nghymru ac yn Lloegr. Nod y darpariaethau yw mynd i'r afael ag annhegwch mewn perthynas â system sy'n gweithredu yn yr un ffordd yn union yn y ddwy wlad ar hyn o bryd. Mae ymchwil hefyd wedi dangos bod lesddeiliaid yng Nghymru yn wynebu'r un problemau o ran annhegwch ag y mae lesddeiliaid yn Lloegr yn eu hwynebu[1]. Felly, heblaw am nifer bach o eithriadau dibwys (mewn perthynas â'r ffaith bod Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau yn bodoli yng Nghymru, er

[1] Ymchwil i werthu a defnyddio prydlesi yng Nghymru | LLYW.CYMRU Gweler: https://llyw.cymru/ymchwil-i-werthu-defnyddio-prydlesi-yng-nghymru

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

enghraifft), mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r annhegwch hwnnw yn yr un ffordd yn union yn y ddwy wlad. Ac felly nid yw'n canolbwyntio ar Gymru yn benodol.

Mewn perthynas â'r ail bwynt bwled, roedd y Memorandwm yn nodi, '*o ystyried cymhlethdod y ddeddfwriaeth bresennol ar lesddaliadau, byddai dull gweithredu cydlynol a chyson yn fuddiol i Gymru a Lloegr.'* Er nad yw'r Memorandwm yn crybwyll hyn yn bendant, mae mater cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas ag agweddau ehangach ar y gwaith o ddiwygio cyfraith lesddaliad a allai godi yn rhan bwysig o'r 'cymhlethdod' a nodwyd ganddo, sy'n ategu'r awydd i sicrhau dull gweithredu deddfwriaethol cyson yn y ddwy wlad. Rwy'n derbyn y gellid bod wedi gwneud y pwynt hwn yn gliriach, ac rwy'n deall barn y Pwyllgor y byddai hyn wedi bod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm yn canolbwyntio ar gymhwysedd mewn perthynas â'r Bil presennol, yn lle deddfwriaeth y gellid ei gwneud yn y dyfodol.

Mewn ymateb i'r pwynt bwled olaf, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol y bydd gwaith diwygio cyfraith lesddaliad yn y dyfodol yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn y tri adroddiad a luniwyd ganddo yn ymwneud â gwahanol agweddau ar ddiwygio cyfraith lesddaliad; sef rhyddfreinio lesddaliadau, cyfunddaliad a'r hawl i reoli. Ni allaf ddweud unrhyw beth ar hyn o bryd am ba agweddau penodol ar y ddeddfwriaeth bellach a allai fod yn ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu beidio, am nad yw'r ddeddfwriaeth wedi cael ei llunio eto. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ar hyn o bryd ein bod yn canolbwyntio ar weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau cyfres gydlynol o ddiwygiadau deddfwriaethol sy'n gweithio i bob lesddeiliad, ni waeth ble mae'n byw. O ran yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r diwygiadau pellach hynny i'r ddeddfwriaeth, nod penodol Llywodraeth y DU yw dwyn Bil ymlaen yn ystod sesiwn nesaf Senedd y DU.

***Argymhelliad 2 (a'r argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad dyddiedig 9 Rhagfyr)*** *Cyn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog sicrhau y caiff ei ddiwygio i ddarparu mai Gweinidogion Cymru sy'n arfer yr holl bwerau dirprwyedig i wneud is-ddeddfwriaeth yng Nghymru mewn meysydd datganoledig.*

Am y rhesymau a nodwyd gennyf yn fy llythyr at y Pwyllgor, a ddyfynnwyd gan y Pwyllgor ym mharagraff 8 o'r adroddiad[2], nid wyf o'r farn fod angen dirprwyo'r pwerau nad ydynt wedi'u dirprwyo i Weinidogion Cymru. Felly nid wyf yn bwriadu ceisio rhagor o ddiwygiadau i'r Bil a fyddai'n arwain at ddirprwyo'r pwerau hyn. O ystyried amserlen y Bil, y drafodaeth a drefnwyd ar gyfer 14 Rhagfyr fydd y cyfle olaf i'r Senedd gael trafodaeth ar y cynnig a chynnal pleidlais ystyrlon arno.

***Argymhelliad 3.*** *Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, esbonio sut y mae'r dull gweithredu a fabwysiadodd Llywodraeth Cymru fel yr argymhellodd yn ei llythyr ar 16 Tachwedd 2021 (yn benodol fel y cyfeirir ato ym mharagraffau 21 i 22 ac 49 i 57 o'r adroddiad hwn) yn gyson ag egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU.*

Mae Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU yn nodi mai'r Senedd ddylai ddod â deddfwriaeth sylfaenol i rym mewn meysydd wedi'u datganoli, ond mae hefyd yn nodi'n glir ei bod yn *'anorfod bod rhai amgylchiadau, a bydd hynny'n parhau, lle mae'n synhwyrol ac yn fanteisiol bod darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn cael ei cheisio ar gyfer Cymru ym Milau Senedd y DU, gyda chydsyniad Senedd Cymru.*'

[2] Bu fy llythyr dyddiedig 16 Tachwedd yn cyfeirio at bŵer i wneud rheoliadau yn diwygio ystyr prydlesi cynllun cyllid cartref. Awgrymwyd bod y pŵer hwn i'w weld yng Nghymal 2(6) yn y Bil. Cymal 2(8) ddylai hyn wedi bod.

Mae'r ddogfen hon yn nodi bod *'cymryd darpariaeth mewn Bil gan y DU yn gallu golygu y gellir sicrhau atebion pragmataidd mewn modd amserol, gan barchu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yr un pryd drwy'r broses cydsyniad deddfwriaethol. Gall fod yn fater o lywodraethu ymarferol da i ddarpariaethau o'r fath gael eu cynnwys mewn Bil gan y DU.'*

Hyderaf y bydd y dull gweithredu a amlinellwyd gennyf yn fy llythyr at y Pwyllgor yn gyson ag ysbryd yr egwyddorion hyn. Mae tair o'r pum enghraifft o sefyllfaoedd lle mae'r ddogfen yn nodi ei bod yn briodol cymryd darpariaeth mewn Bil gan y DU yn ymwneud yn uniongyrchol ag amgylchiadau'r Bil hwn, neu â'r ddeddfwriaeth diwygio cyfraith lesddaliad bellach sydd i'w dilyn. Y sefyllfaoedd hynny yw:

- *pan fyddai cynnig deddfwriaethol gan Lywodraeth y DU hefyd yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cymru ond nad oes amser ar gael i gyflwyno darpariaethau tebyg yn y Senedd;*

- *pan fo natur gydgysylltiedig systemau gweinyddol perthnasol Cymru a Lloegr yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol fyddai bwrw ymlaen â darpariaeth ar gyfer y ddwy yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol;*
- *pan fo Bil y DU yn ymdrin â materion datganoledig a materion a gadwyd yn ôl a bod yn rhaid dilyn llwybr Senedd y DU er mwyn cyflawni'r amcan polisi.*

Hyd y gwelaf i, bydd yr wybodaeth a roddais i'r Pwyllgor yn flaenorol yn dangos sut mae'r enghreifftiau hyn yn berthnasol.

Hyderaf y bydd yr ymatebion a roddwyd gennyf uchod o ddefnydd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change